**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 7.4.26**

**4.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Nia Rees (Is-Gadeirydd), Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, Jennifer Yuill, Evan Owen, Eryl Jones Williams (Cyngor Gwynedd).

**4.2 PRESENNOL**
Cyng. William Hooban (Cadeirydd), Deilwen Anderson, Edward Williams, Beth Bailey, Sian Edwards, John Ceri Evans, Edward Griffiths.

**4.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**
Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi bod ynghlwm ar gweithgareddau oedd wedi cael eu cynnal yn y neuadd bentref yn ddiweddar.

**4.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mawrth 3ydd 2026 fel rhai cywir.

**4.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**3.6 DATGAN BUDDIANT**
Datganodd y Cyng. William Hooban ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi a ni chymerodd rhan yn y drafodaeth pan gafodd y mater hwn ei drafod.

**4.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Gan fod Purdah wedi dod i rym ar 25 Mawrth ar gyfer etholiadau Llywodraeth Cymru ar 7 Mai, mae yna ychydig iawn o gyfarfodydd yn digwydd. Y ffordd orau i gael gwybodaeth fanwl am yr hyn sy'n digwydd yn Sir Gwynedd yw ar wefan y cyngor o dan ryddhau i'r wasg. Mae pryder wedi cael ei fynegi gan rai Cynghorwyr Gwynedd eu bod yn cael eu nodi fel ymddiheuriadau am beidio â mynychu rhai cyfarfodydd er eu bod mewn gwirionedd yn cynrychioli Gwynedd ar awdurdodau allanol fel y Gwasanaeth Tân, Byrddau Pensiwn ac ati. Cytunais gan ei fod yn ymddangos yn annheg pan fo rhai aelodau yn cynrychioli'r cyngor ac na allent fod mewn cyfarfodydd gwahanol ar yr un pryd. Teimlid pan ddigwyddai hyn fod esboniad yn y cofnodion wedi ei gyfiawnhau. Mae rhai Cynghorwyr yn methu â mynychu cyfarfodydd oherwydd nad yw eu ceisiadau cyfarfod yn cyrraedd eu iPhones. Roedd cynulleidfa dda iawn yn y cyfarfod heddlu lleol yn Abermaw. Am y tro cyntaf roedd Heddlu Trafnidiaeth Prydain sydd wedi'i leoli yn Machynlleth yn bresennol. Roedd hyn oherwydd nifer fawr o ddigwyddiadau penwythnos sy'n cael eu cynnal yn Abermaw gyda llawer o bobl yn dod ac yn gadael ar y trên. Ni rhoddwyd manylion i mi sut y byddai'r digwyddiadau hyn yn effeithio ar y traffig traws ar yr A496. Disgwylir i'r goleuadau traffig wrth yr Last Inn ar gyfer gwaith amddiffyn y môr barhau tan mis Tachwedd gyda newidiadau arbennig yn ystod penwythnosau prysur. Roedd rhai digwyddiadau yn cael eu trefnu heb hysbysiadau i Gwynedd, yr heddlu a'r pwyllgor Harbwr ac yn y dyfodol mae'n rhaid cael ymgynghoriad llawn. Fe adroddwyd na fyddai MotoX yn Hydref yn yr un fformat gan nad oedden nhw wedi cydymffurfio â amgylchiadau y llynedd. Bydd 3 heddwas a 2 Swyddog Cymorth Heddlu (PCSO) wedi'u lleoli yn Abermaw, ond nid ar yr un amseroedd. Bydd eu hardal hyd Llanbedr gyda'r heddlu a'r PCSO's yn cwmpasu Harlech yn dod o Borthmadog. Mae sawl ymgyrch cyffuriau wedi digwydd. Cytunodd pawb fod angen gwella cau ffyrdd a

arwyddion gyda ymgynghori gwell. Ni ymgynghorodd yr heddlu lleol am rai cau ffyrdd. Bûm yn cadeirio pwyllgor Harbwr Bermo ar ôl i Aelod y Cyngor Wendy Cleaver beidio cael ei chysylltu'n iawn. Roedd 92% o adborth gan ddefnyddwyr y harbwr yn rhagorol neu'n dda iawn ac yn canmol yr help a roddwyd gan staff y harbwr. Gwelwyd colled o tua £6k ond £4.5k oedd yn delio â niwed storm gaeafol. Roedd pawb yn meddwl bod y harbwr yn cael ei redeg yn dda iawn a gofynnais i'r ddau aelod Cabinet a oedd yn bresennol roi gwybod i gabinet Gwynedd am waith da'r staff y harbwr. Rhoddwyd adroddiadau gan swyddog uwch y harbwr Daniel a meistr y harbwr Kane Triggs ac roedd Swyddog Morol yn bresennol. Y digwyddiadau yn y harbwr hyd yma sydd efallai'n effeithio ar draffig trwy'r A496 yw…GWYL BERMOUTH 8/9 Mai. Cario a ras 10k 13 Mehefin. Gŵyl Dŵr a stori jêd sgi Bae Colwyn 20 Mehefin. Gŵyl Bwyd 5 Gorffennaf Sinema'r Arfordir 7/8 Awst. Môr i'r Awyr 5 Medi. HurleyBurley 12 Medi. Gŵyl Cerdded ? MotoX trefnwyr newydd ? Tan gwyllt Tan Bon 6/7 Tachwedd, Parêd Traceryn ? Symudodd Gŵyl Y Ciwed i Aberdyfi ond gallai ddychwelyd yn 2027 Pob un yn destun newid oherwydd amodau tywydd. Y Cynghorydd Eryl Jones Williams 242758

**4.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Adleoli ac ail-leoli 9 carafán gwyliau sefydlog (dim cynnydd yn nifer cyffredinol yr unedau) o fewn ffin bresennol y safle, ynghyd ag adleoli ardal chwarae a gwelliannau amgylcheddol Parc Gwyliau Sarnfaen, Talybont (NP5/58/19M)**
Cefnogi y cais hwn.

**4.9 MATERION YN CODI**
**A Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £51,782.43 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £11,730.81 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.
Rhannodd y Clerc gopïau o gynllun gyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27 i bob Aelod ac aethpwyd drwy'r cynllun hwn. Cytunwyd i fabwysiadu y cynllun hwn am y flwyddyn i ddod.

**B Cae Peldroed**
Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod. Dymunwyd pob lwc i'r tim peldroed dan 13 yn rownd derfynol NWCFA dydd Sadwrn nesa ag i'r tim peldroed dan 12 yn rownd derfrynol Cynghrair Peldroed Ieuenctid Gwynedd

**C Y Neuadd Bentref**
Cafwyd wybod bod pob dim yn mynd yn iawn gyda'r uchod a bod y pwyllgor yn dal i weithio yn galed ag yn denu gwahanol gweithgareddau i'r neuadd. Hefyd cafwyd wybod bydd y cyn ystefell snwcer yn cael ei gwneud yn ystafell gemau ag hefyd adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod bydd y diffibriliwr yn cael ei osod yn y dyfodol agos.

**D Camerau CCTV**
Cytunwyd i adael y mater hwn tan mis nesa.

**4.10 GOHEBIAETH**
**A Cyngor Gwynedd – Adran Economaidd**
Ymhellach i'r e-bost a dderbyniwyd gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor byddai grant ar gael i Gynghorau Cymuned drwy Cronfa Cefnogi Cymghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026, 'roedd gwybodaeth ychwanegol wedi ei dderbyn a gafwyd wybod byddai y Cyngor hwn yn gallu cael grant hyd at £7,000 oherwydd eu bod yn Gyngor gyda poblogaeth rhwng 1,000 a 4,999 o drigolion.

**B. Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn yr ardal rhwng y 6ed ar 10ed o'r mis hwn.

**C Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn ateb gan yr Adran uchod i faterion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Nid oedd yr Aelodau yn hapus o gwbwl gyda'r atebion yr oeddynt wedi ei dderbyn ynglyn ar materion hyn a cytunwyd gofyn i'r Cyng. Eryl Jones Williams fel y Cynghorydd Gwynedd i gymeryd y mater i fyny hefo'r Adran Priffyrdd.

**D Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn ateb gan yr Adran uchod yn datgan nid yw maes parcio Penrhiw o dan eu perchnogaeth ag felly nid yw yn bosib iddynt awdurdodi ei ymestyn, ei addasu na cario allan unrhyw newidiadau strwythurol iddo, na gosod arwyddion arno. Cytunwyd i ofyn a oeddynt yn gwybod pwy oedd yn berchen ar y maes parcio.

**E Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ar y 14eg o'r mis hwn am 7.00 o'r gloch dros zoom.

**F Crachod Dyffryn**

Wedi derbyn llythyr o ddiolch gan yr uchod am y rhodd a dderbyniwyd ganddynt tuag at wneud yr hamperi nadolig

**4.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £27,549.59 yn y cyfrif rhedegol a £46,763.63 yn y cyfrif wrth gefn.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Annwen Hughes | - £273.06 (cyflog) + £254.95 costau = £528.01 | |
| Evergreen | - £355.00 | - torri gwair yn y dair fynwent |
| Gary Martayn | - £298.00 | - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd |
| Mr. G. J. Williams | - £112.00 | - torri gwair o gwmpas amrywiol lefydd yn Talybont |
| Pwyllgor Neuadd | - £20.00 | - llogi ystafell bwyllgor mis Mawrth |
| E. W. Owen a'i Chwmni | - £240.00 | – cwblhau P.A.Y.E ar lein |
| Un Llais Cymru | - £384.00 | – tal aelodaeth am y flwyddyn |
| Un Llais Cymru | - £42.00 | – hyfforddiant Cynghorydd (Cyng. Beth Bailey) |
| Guthrie Jones & Jones | - £14.00 | - llun gopio dogfenau |
| Cyllid a Thollad | - £204.80 | - treth ar gyflog y Clerc |

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. John Ceri Evans a wnaeth y Cyng. Edward Griffiths gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

'Roedd y Trysorydd wedi anfon copïau o gyfrifion y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2026 i bob Aelod. Fe aethpwyd drwy'r cyfrifon yn ofalus ag fe gymeradwyddwyd y cyfrifon yn unfrydol gan yr Aelodau. Cytunwyd gan pawb bod y llyfr cyfrifon yn cael ei arwyddo gan Cadeirydd a'r Clerc.

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Cyllid a Thollad - £363.48 – ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – £159.00 - gwasanaeth cyfieithu

**4.12 UNRHYW FATER ARALL**

Datganwyd pryder bod rhai yn parco yn maes parcio Llidiart y Parc trwy'r dydd a nos a cytunodd y Cadeirydd i gael gair gyda'r rhai oedd yn gwneud hyn.

Datganwyd pryder bod Dwr Cymru yn cae Ffordd Bennar unwaith eto.

Cytunwyd bod angen gofyn i gael gwared o'r banciau ail gylchu sydd yn maes parcio ffordd stesion.,

**ARWYDDWYD...............................................Cadeirydd**

**DYDDIAD......................................................................** 865